

## Defnyddio Data'r Arolwg Iechyd a Llesiant Myfyrwyr ar gyfer Ymchwil Cysylltu Data

Mae'r ddogfen hon yn esbonio sut bydd data a gesglir gan fyfyrwyr ysgol sy'n cymryd rhan yn yr Arolwg Iechyd a Llesiant Myfyrwyr yn cael ei ddefnyddio ar gyfer ymchwil cysylltu data.

Bydd yr holl fyfyrwyr y mae eu data'n cael ei ddefnyddio fel hyn wedi rhoi eu caniatâd ar ddiwedd yr arolwg.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am ymchwil cysylltu data neu'r Arolwg Iechyd a Llesiant Myfyrwyr, gallwch gysylltu ag ymchwilydd yn nhîm y Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion ym Mhrifysgol Caerdydd:

- E-bost [shrn@caerdydd.ac.uk](mailto:shrn@caerdydd.ac.uk)
- Ffôn 029 2087 4433
- Post DECIPHer, Prifysgol Caerdydd, 1-3 Museum Place, Caerdydd CF10 3BD

### Beth yw ymchwil cysylltu data?

Ym maes 'ymchwil cysylltu data', mae cofnodion a gedwir am bobl yn cael eu cysylltu â'i gilydd i alluogi ymchwilwyr i ateb cwestiynau pwysig er budd cymdeithas. Mae hyn yn ychwanegu gwerth at y data a gesglir fel mater o drefn bob dydd ledled Cymru ar gyfer cadw cofnodion a monitro, gan ei fod yn golygu y gellir defnyddio'r data ar gyfer ymchwil hefyd.

Mae'r cofnodion sydd wedi'u cysylltu â'i gilydd yn dod o amrywiaeth o sefydliadau, fel y GIG a Llywodraeth Cymru. Cyfeirir at y rhain fel 'data cyffredin' ac mae enghreifftiau yn cynnwys:

- Cronfa Ddata Genedlaethol ar Iechyd Plant Cymunedol (GIG)
- Data Gofal Sylfaenol o bractisau meddygon teulu (GIG)
- Data cyrhaeddiad addysgol, e.e. canlyniadau TGAU (Llywodraeth Cymru)


Hefyd, gellir defnyddio data o arolygon ar gyfer ymchwil cysylltu data. Daw'r cofnodion hyn o sefydliadau fel prifysgolion, neu o Lywodraeth Cymru, er enghraifft:

- Arolwg Cenedlaethol Cymru (Llywodraeth Cymru)
- Arolwg Iechyd a Llesiant Myfyrwyr (Prifysgol Caerdydd)

Ar ôl i gofnodion gael eu cymeradwyo i'w defnyddio ar gyfer ymchwil cysylltu data, fe'u cedwir ym **manc data SAIL ym Mhrifysgol Abertawe**. Staff awdurdodedig y banc data sy'n gyfrifol am gysylltu cofnodion â'i gilydd a sicrhau eu bod yn cael eu storio'n ddiogel a'u defnyddio'n briodol. Cyn i gofnodion gael eu cysylltu, maent yn cael eu gwneud yn ddienw. ***Mae hyn yn golygu na all yr un person unigol fyth gael ei adnabod o'r data a gedwir amdano ym manc data SAIL.***

### Sut mae data'r Arolwg Iechyd a Llesiant Myfyrwyr yn cael ei wneud yn ddienw a'i drosglwyddo i fanc data SAIL?

Mae'r diagram isod yn dangos beth sy'n digwydd i ddata a gesglir oddi wrth fyfyrwyr sy'n cymryd rhan yn yr Arolwg Iechyd a Llesiant Myfyrwyr ac sy'n rhoi eu caniatâd i'w hatebion i'r arolwg gael eu defnyddio at ddiben ymchwil cysylltu data.



A

Cynhelir yr Arolwg Iechyd a Llesiant Myfyrwyr gan Ipsos MORI ar ran Prifysgol Caerdydd. Mae Ipsos MORI yn gwmni ymchwil gymdeithasol yn y Deyrnas Unedig.

Pan fydd myfyriwr yn dechrau'r arolwg ar-lein, caiff rhif adnabod myfyriwr ei neilltuo ar hap iddo.

Mae Ipsos MORI yn cofnodi rhif adnabod pob myfyriwr, eu hymatebion i'r arolwg a'u data adnabyddadwy (eu henw, dyddiad geni a chod post).

Yna, mae Ipsos MORI yn creu dwy ffeil ar wahân. Ffeil 1, gyda rhifau adnabod a data adnabyddadwy myfyrwyr, a Ffeil 2, gyda rhifau adnabod myfyrwyr a'u hymatebion i'r arolwg. Felly, mae Ffeil 2 yn ddiennw, gan nad yw'n cynnwys unrhyw ddata adnabyddadwy.

Mae'r ddwy ffeil hyn yn cael eu diogelu gan gyfrinair ac yna'u hanfon trwy drosglwyddo ffeiliau electronig yn ddiogel i Brifysgol Caerdydd.

B

Mae Prifysgol Caerdydd yn storio'r ddwy ffeil yn ddiogel mewn ffolder electronig mynediad cyfyngedig. Caiff mynediad at y ffolder hwn ei adolygu'n fisol. Mae'r cyfrinair ar Ffeil 1, yn cynnwys data adnabyddadwy, yn cael ei newid ac mae'n hysbys i dri aelod yn unig o staff ymchwil.

Mae ymchwilwyr Prifysgol Caerdydd yn gwneud cais i Banel Adolygu Llywodraethu Gwybodaeth (IGRP) Banc Data SAIL. Mae'r panel hwn yn adolygu sut cafodd data'r arolwg ei gasglu a pha wybodaeth a roddwyd i fyfyrwyr cyn iddynt roi eu caniatâd ar gyfer ymchwil cysylltu data. Ni all data gael ei gofnodi yn y Banc Data a'i ddefnyddio ar gyfer ymchwil cysylltu data heb gymeradwyaeth IGRP.

C

Pan roddir cymeradwyaeth yr IGRP, bydd Prifysgol Caerdydd yn anfon Ffeil 1, yn cynnwys rhif adnabod a data adnabyddadwy'r myfyriwr, i Wasanaeth Gwybodeg GIG Cymru (NWIS\*) trwy drosglwyddo ffeiliau electronig yn ddiogel.

Mae staff awdurdodedig yn NWIS yn defnyddio algorithm (cod cyfrifiadurol) i drosi enw, dyddiad geni a chod post pob myfyriwr yn Faes Cysylltu Dienw.

Mae NWIS yn creu ffeil newydd, sy'n cynnwys Maes Cysylltu Dienw pob myfyriwr a rhif adnabod y myfyriwr (Ffeil 3), ac yn ei ddychwelyd i Fanc Data SAIL.

D

Mae Prifysgol Caerdydd yn anfon Ffeil 2, yn cynnwys rhifau adnabod myfyrwyr a'u hymatebion dienw i'r arolwg, i Fanc Data SAIL trwy drosglwyddo ffeiliau electronig yn ddiogel.

Bydd staff awdurdodedig ym Manc Data SAIL yna'n defnyddio rhif adnabod y myfyriwr i gysylltu Maes Cysylltu Dienw pob myfyriwr a'i ymateb i'r arolwg. Yna, caiff rhif adnabod y myfyriwr ei waredu a chofnodir yr ymateb i'r arolwg yn y Banc Data, gyda'r Maes Cysylltu Dienw.

Mae gan yr holl gofnodion yn y Banc Data sy'n ymwneud â pherson penodol yr un Maes Cysylltu Dienw. Mae hyn yn galluogi cysylltu atebion pob myfyriwr i'r arolwg â data arall a gedwir amdanynt yn y Banc Data, e.e. cofnodion meddyg teulu.

\*Cyfeirir at **NWIS** fel y 'Trydydd Parti Dibynadwy' yn y broses cysylltu data. Mae cyfranogiad NWIS yn golygu bod ymchwilwyr ym Manc Data SAIL yn gweld y data anhysbys yn unig, h.y. nid ydynt fyth yn gweld enwau myfyrwyr. Yn yr un modd, mae staff yn NWIS yn gweld enwau, dyddiadau geni a chodau post myfyrwyr yn unig, ond nid eu hatebion i'r arolwg, felly ni fyddant fyth yn gwybod beth ddywedodd y myfyrwyr amdanynt eu hunain yn yr arolwg.

## **Banc Data SAIL**

Ystyr 'SAIL' yw Secure Anonymised Information Linkage a gallwch ddarllen rhagor am fanc data SAIL ar ei wefan: <https://saildatabank.com>

Ariennir y Banc Data gan Lywodraeth Cymru.

## **Ymchwil Cysylltu Data gan ddefnyddio'r Arolwg Iechyd a Llesiant Myfyrwyr**

Mae data o Arolwg Iechyd a Llesiant Myfyrwyr 2017 wedi'i gymeradwyo i'w gadw yn y Banc Data. Bydd y data hwn yn cael ei gysylltu â chofnodion iechyd ac addysg i archwilio'r berthynas rhwng iechyd meddwl a llesiant pobl ifanc, a'u defnydd o alcohol a chyffuriau, a'u teimladau am fywyd ysgol (e.e. y berthynas ag athrawon, triwantiaeth).